

Llyr Gruffydd AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

6 Tachwedd 2018

Annwyl Llyr


Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-2020**, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref 2018. Mae ymateb manwl y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Rydym yn nodi ac yn croesawu casgliad y Pwyllgor ei fod yn fodlon gyda'n cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft.

Rydym hefyd yn nodi casgliad y Pwyllgor na ddylai unrhyw gostau annisgwyl y Penderfyniad gael eu talu o gyllideb weithredol y Comisiwn. Os bydd costau annisgwyl yn codi lle mae gwariant y Penderfyniad yn fwy na'r gyllideb, ein bwriad fyddai ceisio cyllideb atodol os yw'r swm hwn yn sylweddol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd ddidwyll, dryloyw a chlir, felly mae croeso ichi gysylltu â mi os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir



Suzy Davies  
copi at Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



## Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn fod â dull gweithredu cyson o ran sut mae newidiadau i gyllidebau blynyddol yn cael eu cyflwyno, er enghraifft, gan gynnwys, neu beidio, wariant nad yw'n arian parod a gwariant a reolir yn flynyddol.

Rydym yn nodi ac yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor bod y newidiadau a gyflwynwyd i ddogfen y gyllideb ar gyfer 2019-20 yn gwneud ein proses cyllidebu yn fwy tryloyw. Ein nod yw parhau i fod mor agored ag yr ydym wedi bod, ac rydym am barhau i weithio gyda'r Pwyllgor i wella ein cyflwyniadau ar gyfer y gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Roedd yn anodd gwneud cymhariaeth glir rhwng cyllideb 2018-19 a chyllideb 2019-20 yn ystod y flwyddyn bontio hon. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei fod yn fodlon gyda chynnig a chyflwyniad newydd y gyllideb ddrafft, ac felly yn y dyfodol byddwn yn cyflwyno cyllidebau mewn ffordd gyson er mwyn sicrhau bod modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng cyllideb 2019-20 a chyllideb 2020-21 a chyllidebau yn y dyfodol.

Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i fonitro'r cynnydd yng Ngrant Bloc Cymru ac yn sicrhau bod cyllideb **weithredol** y Comisiwn yn cynyddu'n unol â Grant Bloc Cymru.

Mae'r gyllideb **weithredol yn cynnwys** gwariant refeniw (staff a heb fod ar gyfer staff), gwariant cyfalaf a'r gronfa prosiectau newydd. Y gyllideb weithredol ar gyfer 2019-20 yw £37.076 miliwn, fel y nodir ar dudalen 36 y gyllideb ddrafft.

Mae'r gyllideb weithredol **yn eithrio** unrhyw symiau nad ydynt yn arian parod (costau cyllid pensiwn (AME) a dibrisiant), ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag Aelodau neu etholiadau (gan gynnwys cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau). Mae'r symiau hyn y tu allan i reolaeth y Comisiwn gan fwyaf; gyda'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cael ei seilio ar gyngor a ddarperir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth a chyllideb y Penderfyniad yn cael ei phennu gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.



**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn gosod y gyllideb derfynol, bod y ddogfennaeth yn cael ei diwygio i egluro'r gwaith prosiect sy'n cael ei gyflawni o dan y pennawd "gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu".

Mae blaenoriaethau ymgysylltu y Llywydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnwys datblygu ein gwasanaethau ymgysylltu ar-lein, sefydlu Senedd leuenctid a'r uchelgais a nodir yn strategaeth y Comisiwn ei hun ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae adroddiad y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol wedi ychwanegu argymhellion penodol ac ysgogiad pellach.

Yn Atodiad 3 y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20, mae'r is-bennawd "Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad" yn rhestru'r blaenoriaethau ymgysylltu ar gyfer 2019-20. Mae hyn yn cynnwys y wefan a gweithgareddau gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu eraill. Mae tudalen 25 o ddogfen y Gyllideb ddrafft yn cynnig rhagor o fanylion am y blaenoriaethau gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu hyn. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Bydd y Comisiwn yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad ym mis Mai 2019 drwy hyrwyddo ei waith, ei gyflawniadau a'i hanes yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 6 Mai 2019.
- Hefyd, bydd y Comisiwn yn cynnal gŵyl ddemocratiaeth fel prif eitem y dathliad, gan gynnwys darlithoedd, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn gynnar yn nhymor yr hydref.
- Mae'r Comisiwn wedi cytuno i fuddsoddi mewn dulliau gwranddo cymdeithasol gwell.
- Mae'r Comisiwn hefyd wedi cytuno i fynd ar drywydd buddsoddi mewn gwasanaeth gwifren newyddion presennol i gynyddu'r allbwn penodedig o newyddion y Cynulliad. Y cynnig yw rhedeg y gwasanaeth fel peilot am ddeuddeg mis, yn amodol ar achos busnes llawn.

Mae'r gwaith cynllunio newydd ddechrau ar y pedair menter hyn, ac amcangyfrifir mai tua £125,000 fydd y costau.



**Argymhelliad 3.** Mae ansicrwydd ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r Senedd leuenctid ac mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried ymhellach sut y penderfynir ar y costau, a sut y cânt eu cyflwyno yn y Gyllideb ddrafft.

Ym mis Tachwedd 2016, fel rhan o raglen ddiwygio ehangach y Cynulliad, cyhoeddodd y Comisiwn ei fod yn bwriadu sefydlu Senedd leuenctid Cymru. Ym mis Medi 2017, cytunodd y Comisiwn i fynd ar drywydd sefydlu Senedd leuenctid, gyda chynrychiolwyr yn cael eu hethol yn electronig yn ystod 2018.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2018-19 yn cynnwys swm penodol o £100,000 ar gyfer y Senedd leuenctid. Dangosir hyn yn Atodiad 3 o ddogfen y Gyllideb ar gyfer 2018-19 sy'n nodi manylion y blaenoriaethau buddsoddi.

Roedd y gwariant hwn yn cynnwys y canlynol:

	Cyllideb 2018-19
<b>Cam 1</b>	
Ymgynghori ac ymgysylltu	£9,600
<b>Cam 2</b>	
Sefydlu system etholiadol	£21,600
Datblygu adnoddau	£20,000
Costau rhedeg	£48,360
<b>Cyfanswm</b>	<b>£99,560</b>

Mewn blynyddoedd nad ydynt yn rhai etholiad, fel 2019-20, rhagwelir mai dim ond costau rhedeg y Senedd leuenctid a fydd yn cael eu hysgwyddo. Mae cyllideb ddrafft 2019-20 yn cynnwys costau rhedeg o £50,000. Nid yw costau'r Senedd leuenctid bellach i'w gweld yn Atodiad 3 (prosiectau blaenoriaeth) gan fod y Senedd leuenctid bellach yn cael ei ystyried yn "fusnes arferol" ac yn eitem graidd o wariant sydd bellach yn ymddangos mewn cyllideb gwasanaeth yn y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu.

Mae costau rhedeg y Senedd leuenctid i'w gweld yn y tabl isod. Disgwylir i'r costau hyn gael eu hysgwyddo bob blwyddyn, gyda chyfanswm o oddeutu £50,000. Bydd costau ychwanegol yn ystod blynyddoedd etholiad, fel y nodir uchod.

Caiff rownd o ddigwyddiadau rhanbarthol, cyfarfodydd a'r cyfarfod preswyl cyntaf eu cynnal ym mis Ionawr/Chwefror 2019, a bydd hyn yn cynnig tystiolaeth fwy eglur o'r gwir gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd llawn Senedd leuenctid Cymru. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn adolygu'r costau cyn gynted ag y bo modd



yn y flwyddyn ariannol newydd ac yn ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y dylai eu gwneud yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir.

Gweithgaredd	Costau £
Cyfarfod preswyl pob un o'r 60 Aelod o'r Senedd leuencid Mae'r costau'n cynnwys teithio a chynhaliaeth, trafnidiaeth i'r Aelodau i ac o Fae Caerdydd, cymorth staff allanol ychwanegol, a chostau dros nos.	17,000
Pedwar digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol (un yn y pedwar rhanbarth) (2,500 x 4) Cyfle i Aelodau rhanbarthol ymgysylltu â phobl ifanc yn eu hardaloedd a chyfrannu at raglen Senedd leuencid Cymru	10,000
Cyfarfodydd Aelodau Senedd leuencid Cymru (tri yn ystod y flwyddyn ariannol ym mhob rhanbarth) (1,500 x 12) Cyfleoedd ar gyfer hyfforddi, a datblygu cynlluniau ar gyfer gweithgarwch Senedd leuencid Cymru sydd i ddod gyda staff y Cynulliad	18,000
Cynllun wrth gefn	5,000
Cyfanswm	50,000

**Argymhelliad 4.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurder ynghylch prosiect y feddalwedd, Legislative Workbench, gan gynnwys eglurder ynghylch y costau a sut y rhennir y rhain â Llywodraeth Cymru.

Ar dudalen 22 dogfen y gyllideb ddrafft, fe wnaethom nodi'r canlynol:

Amcangyfrifir mai cost y gwelliannau hyn yw £200,000, a fyddai'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, dros y ddwy flynedd. Mae cyfraniad y Comisiwn wedi'i gynnwys fel £100,000 yn 2019-20 ac yn 2020-21.

Er mwyn i'r gyllideb derfynol fod yn fwy yn eglur, bydd yr adran hon yn cael ei diwygio fel a ganlyn:

Amcangyfrifir mai cost y gwelliannau hyn ar gyfer y Comisiwn yw £200,000 dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd cyfanswm o tua £400,000 yn cael ei rannu i fodloni cydamcanion y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn parhau am ddwy flynedd wrth i'r camau nesaf gael eu hystyried ar gyfer amnewid y feddalwedd yn yr hirdymor. Cyfraniad y Comisiwn yw £100,000 yn 2019-20 a £100,000 yn 2020-21.



**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai unrhyw benderfyniadau o ran staffio gael eu hystyried o ddifri gan y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol, a dylai unrhyw gynllun o'r fath gael ei gysylltu'n agos â chanfyddiadau'r Adolygiad Capasiti diweddar.

Ymhlith y camau yn deillio o'r Adolygiad Capasiti roedd gofyniad i fynd ati'n well i flaenoriaethu sut y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio, mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y gallwn symud staff yn gyflym i ddiwallu anghenion newydd, a chynllunio'n well er mwyn bod yn fwy effeithlon. O ganlyniad i roi'r camau hyn ar waith, rydym wedi llwyddo i fodloni'r galw cynyddol am adnoddau gan ddefnyddio'r 491 o swyddi sydd yn y sefydliad ar hyn o bryd, ac rydym wedi gallu ailddyrannu 10 o swyddi gwag, yn deillio o drosiant naturiol, i rolau blaenoriaeth uwch, yn bennaf yn sgil Brexit a newid cyfansoddiadol. Fodd bynnag, nid oes modd dibynnu ar y dull gweithredu hwn yn unig yn ddi-ben-draw, ac er ein bod wedi ymrwymo i recriwtio o fewn sefydliad o 491 o swyddi, bydd angen atebion eraill ar y Comisiwn i ddiwallu gofynion newydd am adnoddau a sgiliau.

I'r perwyl hwn, rydym wedi bod yn ystyried yn ofalus ai dyma'r amser cywir i gynnig cynllun ymadael gwirfoddol, ar ôl gwneud hynny ar ddiwedd 2015. Nod cynllun o'r fath fyddai:

- caniatáu i'r Comisiwn ymateb i newidiadau yn y gofynion sgiliau ac arbenigedd;
- hwyluso newid sefydliadol, gan gynnwys newidiadau o fewn timau penodol;
- gwella effeithlonrwydd y gweithlu; a
- lle bo hynny'n bosib, sicrhau arbedion hirdymor ac osgoi cynnydd yn y sefydliad wrth ddiwallu anghenion adnoddau.

Trafododd y Comisiwn hyn yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2018. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi ei benderfyniad.



**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y cynnydd ymddangosiadol mewn absenoldeb oherwydd salwch a throsiant staff, ac mae'n argymhell y dylid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Comisiwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Absenoldeb

Fe wnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor ar 16 Hydref 2018 i roi ffigurau diweddar iddo ynghylch absenoldeb oherwydd salwch. Yn y llythyr, fe wnaethom nodi'r canlynol:

Ers mis Mawrth 2018, mae'r ffigurau salwch wedi gwella, ac maent wedi syrthio islaw meincnod y sector cyhoeddus dros y tri mis diwethaf, er nad ydym eto wedi gweld effaith lawn y camau yr ydym yn eu cymryd.

Mis	Absenoldeb oherwydd salwch - cyfartaledd canran treigl dros 12 mis
Mawrth 2018	3.8%
Gorffennaf 2018	3.64%
Awst 2018	3.44%
Medi 2018	3.36%
Meincnod CIPD ar gyfer y sector cyhoeddus	3.7

Mae'r Comisiwn wrthi'n gweithio ar fentrau i wella lefelau absenoldeb a llesiant ac iechyd meddwl staff.

Rhwng 2 a 12 Hydref, fe wnaethom lansio digwyddiad Llesiant Bywyd a Gwaith i'r holl staff. Diben y digwyddiad oedd gwella iechyd a llesiant, gan gynnwys cyngor i gyflogeion a rheolwyr ynghylch y ffyrdd gorau o reoli eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref er mwyn gwella eu lefelau llesiant a'u ffordd o fyw. Roedd y fenter hon hefyd yn cwmpasu Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a gynhaliwyd ar 10 Hydref, a hynny gyda chymorth aelodau MINDFUL, sef rhwydwaith iechyd meddwl y staff. Yn olaf, mae ein nyrs iechyd galwedigaethol wedi bod yn cynnig archwiliadau iechyd am ddim i staff drwy gydol mis Hydref.

Absenoldeb yw canolbwynt y trafodaethau a gynhelir gan Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol y Comisiwn, ac mae'r data a'r trefniadau adrodd sydd ynghlwm wrth faterion absenoldeb wedi gwella, a hynny at ddibenion dangos yn glir sut y mae pob adran yn cymharu â'r meincnod a'n targed sefydliadol. Rydym yn hapus bod cyfnod o 12 mis o newid a chraffu dwys wedi arwain at gynnydd bach yn unig yn ein cyfraddau absenoldeb treigl ym mis Mawrth 2018, a bod hyn wedi lleihau yn



y cyfnod dilynol o fewn cyfartaledd y CIPD ar gyfer y sector cyhoeddus a adroddwyd o 3.7%.

## Cyfradd trosiant

Er gwaethaf blwyddyn o newid ac ansicrwydd, lle mae gofynion wedi cynyddu ac rydym wedi ymrwymo i sefydliad o 491 o swyddi, rydym yn falch bod ein cyfradd trosiant o 10.8% yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd y sector cyhoeddus o 15%. Fel y rhagwelwyd, mae ein cyfweiliadau ymadael yn dweud wrthym gan fwyaf fod pobl yn gadael yn wirfoddol i fynd i swydd newydd neu oherwydd dyrchafiad, ac roedd 20% o'r rhai sy'n gadael naill ai'n ymddeol neu'n dod i ddiwedd contract tymor penodol.

Wrth gwrs, nid yw trosiant yn ddrwg i gyd, ac o ystyried ein bod yn sefydliad cymharol fach, mae'r trosiant wedi bod yn gyfle i'r staff sy'n weddill yn ogystal â chaniatáu i ni ailddyrrannu rhai swyddi gwag i ddiwallu gofynion am adnoddau newydd yn sgil Brexit a diwygio'r Cynulliad.

**Argymhelliaid 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ynglŷn â Diwygio'r Cynulliad gynnwys asesiad cadarn o effaith ariannol.

Yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog, bydd effaith ariannol Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru) yn cael ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol a gaiff ei osod ochr yn ochr â'r Bil adeg ei gyflwyno.

Bydd y ddogfennaeth yn nodi'r amcangyfrifon gorau o effaith ariannol y ddeddfwriaeth ar Gomisiwn y Cynulliad ac ar gyrff allanol. Bydd hyn yn cynnwys y costau a'r arbedion sy'n codi o'r cynigion a'r amserlenni o ran pryd y bydd costau ac arbedion o'r fath yn disgyn. Wrth baratoi'r asesiad effaith ariannol, bydd Comisiwn y Cynulliad yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn dilyn ei [Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth.](#)

Bydd y Bil yn ddarostyngedig i'r prosesau craffu deddfwriaethol arferol, gan sicrhau y bydd y Cynulliad a'i bwyllgorau yn gallu craffu ar yr asesiad effaith ariannol. Os bydd modd ystyried y costau sy'n codi o'r Bil yn rhai 'sylweddol', yna bydd gofyn i'r Cynulliad ystyried penderfyniad ariannol yn unol â Rheolau Sefydlog 26.68 i 26.74.

Yn ogystal, oherwydd y bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n cyffwrdd â phynciau sydd wedi'u diogelu, yn unol â diffiniad adran 9 o Ddeddf Cymru 2017, bydd angen 'uwch-fwyafrif' yn ei gam deddfwriaethol terfynol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i o leiaf 40 Aelod bleidleisio o blaid y Bil yng Ngham 4 er mwyn iddo basio.





**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn yn darparu manylion am y newidiadau yn y gyllideb derfynol sy'n adlewyrchu gwariant ar ddiwygio'r Cynulliad i'r Pwyllgor. Pe bai gofyniad am gyllideb atodol mewn perthynas â diwygio, dylai'r Comisiwn ddarparu manylion i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gyllideb derfynol i adlewyrchu gwariant ar ddiwygio'r Cynulliad yn ystod 2019-20.

Ar 10 Hydref 2018, cytunodd Aelodau'r Cynulliad i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru). Caiff y Bil hwn ei gyflwyno'n gynnar yn 2019. Mae'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y costau gweithredu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn yn 2019-20 adeg gosod y gyllideb ddrafft yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen (mae Atodiad 3 yn nodi bod £25,000 wedi'i neilltuo fel costau ychwanegol ar gyfer newid yr enw yn 2019-20). Rhagwelir costau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â newid yr etholfraint ar gyfer 2020-21. Caiff y costau hyn eu nodi'n fanylach yn yr asesiad effaith ariannol a fydd yn mynd gyda'r Bil (gweler yr ymateb i Argymhelliad 7 uchod).

Mae ail gam rhaglen ddeddfwriaethol y Comisiwn yn ymwneud â systemau etholiadol a maint y Cynulliad. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu caniatáu amser ar gyfer trafodaethau trawsbleidiol ynghylch yr opsiynau i'r ail gam barhau, a deddfu o bosibl yn y Cynulliad hwn os oes cefnogaeth drawsbleidiol.

Mae gwaith yn cael ei wneud i gefnogi dau gam rhaglen y Comisiwn i ddiwygio'r Cynulliad drwy ailflaenoriaethu adnoddau, a lle bo'n bosib drwy symud swyddi a'u cyllid cysylltiedig o rannau eraill o'r sefydliad. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y Comisiwn mewn ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Capasiti. Byddwn yn parhau i fonitro'r angen am adnoddau ychwanegol i ddiwallu'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â Brexit a diwygio'r Cynulliad. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i ni ailedrych ar derfyn o 491 o swyddi ar gyfer y sefydliad.

Efallai y bydd angen cyllid ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer diwygio'r Cynulliad. Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau trawsbleidiol. Nid yw'r costau'n hysbys tan hynny. Os bernir bod angen cyllid pellach ar gyfer diwygio'r Cynulliad o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn, ac nad oes modd ei ganfod drwy symud staff a chyllid o fewn cyllideb y Comisiwn, byddem wedyn yn ystyried Cyllideb Atodol ar gyfer 2019-20. Byddwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y daw hyn yn amlwg.

